


# Ysgol St Cyres

## Prosbectws yr Ysgol



"Unwaith eto mae fy mab wedi cael blwyddyn ysgol o addysgu rhagorol, gan feithrin cymorth ac eiliadau i ragori a ffynnu. Mae'n parhau i neidio o'r gwely a bod yn gyffrous am yr ysgol bob dydd a dyna'r arwydd eich bod chi a'ch staff yn gwneud gwaith anhygoel."

**Rhiant Disgybl Blwyddyn 9**

# Croeso gan y Pennaeth

**Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r prosbectws hwn i chi a'ch croesawu i Ysgol St Cyres. Mae dewis ysgol uwchradd i'ch plentyn yn benderfyniad pwysig iawn a gobeithio bod y prosbectws hwn yn rhoi popeth sydd ei angen arnoch i'ch cynorthwyo i wneud y dewis hwnnw.**

Yn St Cyres, mae gennym ddatganiad cenhadaeth cryf iawn ac rydym yn disgwyl i bob disgybl sydd am fynychu'r ysgol hon, pob rhiant sy'n dymuno anfon eu plentyn yma, a'r holl staff sydd am weithio yma gofleidio hyn. Mae'r datganiad cenhadaeth yn acrostig o enw'r ysgol:

| | |
|---|---|
| **S**trive | (Ymdrechu) |
| **T**ogether | (Gyda'n gilydd) |
| **C**hallenge | (Herio) |
| **Y**ourself | (Eich hun) |
| **R**ealise | (Sylweddoli) |
| **E**veryone can | (Gall pawb) |
| **S**ucceed | (Llwyddo) |

Yn y bôn, mae'r holl oedolion a disgyblion yn y gymuned yn cydweithio i gyflawni'r canlyniadau gorau oll. Mae aelodau o gymuned yr ysgol yn herio eu hunain yn eu gwaith beunyddiol, neu yn eu dysgu, neu'n herio eu hunain i fod y person gorau y gallant fod. Ac yn bwysicaf oll, mae gennym gred ddi-ildio y gall pawb lwyddo, ac rydym yn gweithio gyda'n gilydd i sicrhau'r llwyddiant hwnnw. Rydym yn credu hefyd y gall disgyblion hapus gyda chefnogaeth dda wneud y gorau o addysg ragorol a chyflawni canlyniadau gwych!

Yn unol â'r datganiad cenhadaeth hwn, rydym yn eiriolwyr cryf dros waith cymunedol a phartneriaeth, a'r bartneriaeth bwysicaf sydd gennym yw rhwng yr ysgol a rhieni. O nosweithiau rhieni, nosweithiau gwybodaeth, noson agored i Ddiwrnodau Lles ac Adolygu Academaidd (WARD), rydym yn sicrhau bod cyfleoedd di-ri i chi ymgysylltu â'r ysgol hon ac addysg eich plentyn.

Un peth sy'n ein gosod ar wahân i ysgolion eraill yw'r ffordd rydym yn defnyddio technolegau digidol mewn addysgu a dysgu. Rydym yn falch o fod yr Ysgol Nodedig Apple gyntaf a'r unig un yng Nghymru sy'n rhan o raglen gydnabod byd-eang Apple sy'n dathlu rhai o ysgolion mwyaf arloesol y byd!

Rwy'n gobeithio y byddwch yn dod o hyd i bopeth sydd ei angen arnoch yn y prosbectws hwn, ond os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach, os hoffech fynychu ein Noson Agored, neu ymweld â'r ysgol yn ystod y dydd, mae croeso i chi gysylltu â ni.

Peter Lewis
Pennaeth



# Ynglŷn â'n Hysgol

**Mae Ysgol St. Cyres yn Ysgol Gyfun gymysg, cyfrwng Saesneg, anenwadol i ddisgyblion 11-18 oed. Mae'r ysgol yn gartref i oddeutu 1250 o ddisgyblion ym Mlynyddoedd 7-13 ar gyrion Penarth ym Mro Morgannwg.**

Mae Ysgol St Cyres mewn cyfnod cyffrous iawn wrth i ni barhau i ganolbwyntio ar sicrhau ein bod yn darparu dysgu o ansawdd uchel sydd yn ddifyr ac yn bleserus i'n holl fyfyrwyr. Mae gennym gyfleusterau rhagorol ar ôl symud i adeilad newydd sbon yn 2014, ynghyd â staff ymroddedig a gweithgar sy'n sicrhau bod disgyblion yn mwynhau ac yn llwyddo yn yr ysgol. Rydym yn parhau i gyflawni canlyniadau TGAU a Lefel A rhagorol. Mae llawer o fyfyrwyr yn dewis dychwelyd i'n Chweched Dosbarth ac mae gennym hanes balch o lwyddiant wrth gefnogi myfyrwyr i symud ymlaen i brifysgolion rhagorol, gan gynnwys Rhydychen a Chaergrawnt.

Mae'r ysgol yn rhoi pwys mawr ar arweiniad a chymorth bugeiliol effeithiol I'r holl ddisgyblion. Mae cynnydd a lles pob grŵp blwyddyn yn cael ei oruchwylio gan Benaethiaid Blwyddyn, gyda chymorth tîm o staff cymorth a thîm o Anogwyr Dysgu.

Mae gan bob grŵp blwyddyn Gyngor Blwyddyn sydd yn galluogi ac yn annog disgyblion i chwarae rhan bwysig yn natblygiad yr ysgol a Chyngor yr Ysgol sydd hefyd yn weithgar iawn.

Mae llawer o ffactorau'n chwarae rhan hanfodol yn ein llwyddiant gan gynnwys:

- Disgwyliadau uchel yr holl staff a Llywodraethwyr.
- Monitro agos o gynnydd plant unigol.
- Staff dawnus, ymroddedig a gweithgar.
- Y gefnogaeth lwyr a dderbynir gan rieni a'r gymuned ehangach.
- Addysgu a dysgu arloesol, gan gynnwys ein defnydd o iPads.

Mae ein myfyrwyr yma i ddysgu a byddwn ni'n gosod disgwyliadau heriol iddynt trwy gydol eu hamser gyda ni. Rydym yn falch o'n llwyddiant a byddwn ni'n sicrhau ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i gydnabod a dathlu cyflawniadau myfyrwyr unigol. Rydym yn rhoi pwyslais mawr ar ymddygiad rhagorol ac felly ni fydd yn syndod clywed ein bod yn disgwyl i'n holl fyfyrwyr barchu'r rheolau sy'n cynnwys: caniatáu i eraill ddysgu, gwisgo eu gwisg ysgol â balchder, bod yn brydlon a chynnal cofnod presenoldeb rhagorol, a pharchu'r disgyblion eraill a'r holl staff bob amser.



# Dysgu

**Rhan hanfodol o'n gweledigaeth yw'r awydd i roi mynediad i ddisgyblion at adnoddau a phrofiadau addysgu a dysgu o ansawdd uchel ble bynnag y maent, pryd bynnag y mae eu hangen arnynt. Ein hamgylchedd sy'n gyfoethog o ran technoleg yw grym ysgogi ein gweledigaeth; gan ddarparu cyfleoedd newydd i gydweithio, creu, asesu a myfyrio ac i'n disgyblion ddatblygu'r gwydnwch sydd ei angen i ddod yn ddysgwyr annibynnol llwyddiannus.**

Rydym yn disgwyl i'n holl staff gyflwyno gwersi rhyngweithiol a deinamig o ansawdd uchel, ysgogol, cyfoethog o ran y cyfryngau, lle bydd pob myfyriwr yn cael ei gefnogi a'i herio i wneud cynnydd rhagorol yn eu dysgu.

Mae gennym ymrwymiad sefydledig i ddefnyddio asesu ar gyfer dysgu, gosod targedau dyheadol ac adborth o ansawdd uchel i symud disgyblion ymlaen a'u cefnogi i gyflawni hyd eithaf eu gallu. Mae disgyblion, rhieni a gwarcheidwaid, ac athrawon i gyd yn chwarae rhan hanfodol wrth sicrhau cynnydd. Er mwyn cyflawni'r adborth ystyrlon hwn, mae gosod targedau, monitro cynnydd mewn perthynas â'r targedau hyn ac adborth i rieni i gyd wedi'u dylunio a'u cynllunio i gyd-fynd â'i gilydd i ffurfio un broses gydlynol. Defnyddir strwythur gwersi enghreifftiol St Cyres isod i sicrhau bod athrawon yn:

- Dyfnhau Meddwl
- Modelu Rôl
- Cael effaith ar Ddysgu
- Herio
- Ennill diddordeb dysgwyr.

Mae ein cwricwlwm yn eang a chytbwys. Mae'n dathlu arbenigedd pynciau ac yn annog dysgwyr i archwilio'r cysylltiadau naturiol sy'n digwydd o fewn ac ar draws pob Maes Dysgu.

Ym Mlynyddoedd 7 ac 8, mae disgyblion yn astudio cwricwlwm sy'n cynnwys: - Celfyddydau Mynegiannol, Iechyd a Lles, y Dyniaethau, Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu, Mathemateg a Rhifedd, Gwyddoniaeth a Thechnoleg ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (RSE). Bydd disgyblion yn rhan o wyth grŵp Anogwyr Dysgu gallu cymysg yn fras a byddant yn cael eu haddysgu ar gyfer y rhan fwyaf o wersi o fewn y grwpiau hyn.

Ym Mlwyddyn 9, 10 ac 11, caiff disgyblion y cyfle i astudio ystod o bynciau galwedigaethol ac academaidd (Gweler tudalen 6). Bydd y disgyblion yn gallu dewis pedwar pwnc opsiwn y byddant yn eu hastudio ynghyd â Saesneg (Iaith a Llenyddiaeth), Mathemateg a Rhifedd, Gwyddoniaeth, Cymraeg, Astudiaethau Crefyddol, Addysg Gorfforol, Bagloriaeth Cymru, ac ABCh. Bydd disgyblion mewn un o wyth grŵp Anogwyr Dysgu a byddant yn astudio rhai pynciau yn y grŵp hwn ac yna byddant mewn ystod o ddosbarthiadau eraill ar gyfer Mathemateg, Saesneg, Gwyddoniaeth a phynciau opsiwn.



# Opsiynau TGAU

Yn ogystal â chwricwlwm craidd â Saesneg, mathemateg, gwyddoniaeth, Addysg Gorfforol, Addysg Grefyddol, Cymraeg a CBC, mae disgyblion yn dewis 5 o'r pynciau canlynol i'w hastudio ym Mlwyddyn 9 ac yna'n arbenigo mewn 3 o'r pynciau hyn ym Mlynyddoedd 10 ac 11. Mae proses y llwybr yn dechrau yng ngwanwyn Blwyddyn 8. Ceir rhagor o wybodaeth am bob pwnc yn y Llyfryn Llwybrau blynyddol.

- Celf a Dylunio
- Astudiaethau Busnes
- Cyfrifiadureg
- Adeiladu
- Technoleg Ddigidol
- Drama
- Peirianneg
- Gallu Ariannol
- Bwyd a Maeth
- Ffrangeg
- Almaeneg
- Almaeneg
- Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Hanes
- Lletygarwch ac Arlwyo
- Llwybrau Dyniaethau
- Byw'n Annibynnol
- Astudiaethau Cyfryngau
- Cerddoriaeth
- Addysg Gorfforol
- Celfyddydau Perfformio
- Ffotograffiaeth
- Dylunio Cynnyrch
- Gwyddoniaeth ar Wahân
- Cymdeithaseg
- Sbaeneg
- Tecstilau
- Sgiliau Gwaith



# Opsiynau Lefel A

Mae myfyrwyr yn dewis 4 pwnc o'r rhestr isod yn ogystal â chymhwyster CBC. Mae'r broses opsiynau yn dechrau yng ngwanwyn Blwyddyn 11. Gellir gweld rhagor o wybodaeth am bob pwnc yn y Llyfryn Opsiynau blynyddol.

Celf a Dylunio

Bioleg

Astudiaethau Busnes

Cemeg

Cyfrifiadureg

Troseddeg

Technoleg Dylunio

Technoleg Ddigidol

Drama a Theatr

Economeg

Iaith a Llenyddiaeth Saesneg

Llenyddiaeth Saesneg

Ffasiwn a Thecstilau

Gwyddor Bwyd a Maeth

Mathemateg Bellach

Almaeneg

Daearyddiaeth

Llywodraeth a Gwleidyddiaeth

Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Hanes

Mathemateg

Astudiaethau Cyfryngau

Gwyddor Feddygol

Cerddoriaeth

Technoleg Cerddoriaeth

Addysg Gorfforol

Ffotograffiaeth

Ffiseg

Seicoleg

Astudiaethau Crefyddol

Cymdeithaseg

Twristiaeth

Cymraeg



# Ysgol Nodedig Apple

Mae Ysgol St Cyres yn falch o gael ei chydnabod fel Ysgol Nodedig Apple sy'n rhan o raglen gydnabyddiaeth fyd-eang Apple sy'n cydnabod arloesi a chreadigrwydd wrth ddysgu trwy ddefnyddio technoleg. Mae 728 o Ysgolion Nodedig Apple mewn 36 o wledydd ar draws y byd.


Ysgol St Cyres oedd yr Ysgol Nodedig Apple gyntaf yng Nghymru a chawsom ein cydnabod gyntaf am y wobr hon yn 2014. Yr ysgol yw'r unig Ysgol Nodedig Apple yng Nghymru o hyd!

Mae Ysgolion Nodedig Apple yn ganolfannau arweinyddiaeth a rhagoriaeth addysgol sy'n arddangos gweledigaeth Apple ar gyfer dysgu gyda thechnoleg ac yn cael eu hystyried yn rhai o'r ysgolion mwyaf arloesol yn y byd.


















# Y Diwrnod Ysgol

Dylai pob disgybl gyrraedd trwy fynedfa disgyblion St Cyres Close neu fynedfa'r disgyblion ar waelod y cae 3G erbyn 8:20yb.

<table>
<tr><td colspan="3">Amser Anogwr Dysgu<br>8:30 – 8:45</td></tr>
<tr><td colspan="3">Gwers 1<br>8:45 – 9:45</td></tr>
<tr><td>Blwyddyn 7, 8, 9<br>Egwyl<br>9:45 – 10:00<br>Gwers 2<br>10:00 – 11:00</td><td></td><td>Blwyddyn 10, 11, 12, 13<br>Gwers 2<br>9:45 – 10:45<br>Egwyl<br>10:45 – 11:00</td></tr>
<tr><td colspan="3">Gwers 3<br>11:00 – 12:00</td></tr>
<tr><td>Blwyddyn 8 ac 9<br>Cinio<br>12:00 – 12:32<br>Gwers 4<br>12:32 – 1:40</td><td>Blwyddyn 7, 12 a 13<br>Gwers 4<br>12:00 – 12:32<br>Cinio<br>12:32 – 1:07<br>Gwers 4<br>1:07 – 1:40</td><td>Blwyddyn 10 ac 11<br>Gwers 4<br>12:00 – 1:07<br>Cinio<br>1:07 – 1:40</td></tr>
<tr><td colspan="3">Gwers 5<br>1:40 – 2:40</td></tr>
</table>

Rhaglen lawn o chwaraeon a gweithgareddau allgyrsiol eraill



# Derbyniadau

Mae gan Ysgol St Cyres nifer derbyn cyhoeddedig (PAN) o 210 ym mhob grŵp Blwyddyn a PAN o 220 yn y Chweched Dosbarth. Derbynnir disgyblion i Ysgol St Cyres trwy Gyngor Bro Morgannwg. I gael rhagor o wybodaeth am y meini prawf a'r broses derbyn, gweler y 'Canllaw Rhieni ar gyfer Derbyniadau i Ysgolion' ar wefan Bro Morgannwg. I grynhoi, mae'r meini prawf fel a ganlyn:

- Plant gyda CDU neu ddatganiad AAA gydag Ysgol St Cyres wedi'i henwi.
- Plant sy'n Derbyn Gofal (CLA).
- Plant sy'n byw'n barhaol ar hyn o bryd yn nalgylch dynodedig Ysgol Sant Cyres ar neu cyn y dyddiad cau cyhoeddedig ar gyfer derbyn ceisiadau.
- Plant nad ydynt ar hyn o bryd yn preswylio'n barhaol o fewn dalgylch dynodedig Ysgol Sant Cyres y mae eu rhieni wedi bodloni'r Cyngor, ar neu cyn y dyddiad cau cyhoeddedig ar gyfer derbyn ceisiadau, y bydd y plentyn yn preswylio yn y dalgylch erbyn dechrau'r tymor ysgol y mae'r cais yn ymwneud ag ef.
- Plant a oedd ar gofrestr ysgol gynradd fwydo flaenorol cyn i'r trefniant ysgol fwydo gael ei dynnu'n ôl ym mis Medi 2020.
- Plant y mae'r Cyngor yn barnu bod rhesymau meddygol neu gymdeithasol cryf dros eu derbyn i Ysgol St Cyres.
- Plant sydd â brawd neu chwaer hŷn yn yr ysgol ym mlynyddoedd 7 i 11.
- Agosrwydd cartref y disgybl i'r ysgol uwchradd yn ôl y llwybr cerdded byrraf sydd ar gael.

Mae'r amserlen gyffredinol ar gyfer ceisiadau i Flwyddyn 7 fel a ganlyn:

**Medi**

Mae proses ymgeisio AALl y Fro yn agor i ddisgyblion sy'n trosglwyddo o'r ysgol Gynradd i'r Ysgol Uwchradd

**Hydref**

Cynhelir Noson Agored St Cyres rhwng 6pm ac 8pm i ddarpar rieni a disgyblion ymweld â'r ysgol.

**Tachwedd**

Dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni cais wedi'u cwblhau i AALl Bro Morgannwg.


**Mawrth**

**Dyddiad cynnig.**

Bydd gweithgareddau pontio yn dechrau ym mis Ebrill ar gyfer y disgyblion hynny sy'n cael cynnig lle yn Ysgol St Cyres.

**Mehefin**

Diwrnod cynefino i holl ddisgyblion Blwyddyn 6 gyda chyfarfod rhieni i ddilyn am 6pm.



# Pontio

Mae cysylltiadau agos wedi'u datblygu rhwng Ysgol St Cyres a'r ysgolion cynradd lleol. Maent yn helpu i sicrhau trosglwyddiad esmwyth o addysg gynradd i addysg uwchradd. Yn ystod y flwyddyn, mae disgyblion Blwyddyn 6 yn ymgymryd â rhaglen helaeth o weithgareddau a digwyddiadau pontio i'w helpu i fagu hyder, gwydnwch a dealltwriaeth fel y gallant gael y dechrau gorau posibl i gael eu haddysgu a'u gofalu amdanynt yn Ysgol St Cyres.

Cynhelir ymweliadau ag ysgolion cynradd ym mis Medi i lansio'r broses bontio a rhannu gwybodaeth am yr ysgol. Dilynir hyn gan Noson Agored ym mis Hydref pan fydd darpar ddisgyblion a'u teuluoedd yn gallu crwydro'r ysgol a dysgu am ein cyfleusterau a'n darpariaethau.

Drwy gydol y flwyddyn academaidd, bydd adrannau amrywiol yn cyflwyno prosiectau pwnc-benodol sy'n anelu at bontio'r dysgu o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7. Bydd staff St Cyres yn cyflwyno'r prosiectau hyn yn yr ysgolion cynradd. Yna mae disgyblion Blwyddyn 6 yn ymweld â St Cyres trwy gydol y flwyddyn i brofi dysgu a defnyddio cyfleusterau ac adnoddau arbenigol.

Mae Ysgol St Cyres yn cynnig ystod eang o gyfleoedd cyfoethogi i ddisgyblion Blwyddyn 7 a bydd disgyblion Blwyddyn 6 yn cael nifer o weithgareddau blasu i ddod yn ymwybodol o'n gweithgareddau allgyrsiol sydd ar gael. Bob blwyddyn, mae adran y Celfyddydau Perfformio yn ymweld ag ysgolion cynradd lleol i gyflwyno Sioe Deithiol cynhyrchiad yr ysgol i arddangos y cyfleoedd cyfoethogi yn Ysgol St Cyres. Bydd disgyblion Blwyddyn 6 sydd ag angerdd am gerddoriaeth yn cael eu gwahodd i fynychu Dosbarth Meistr Cerddoriaeth a noson arddangos yn nhymor yr haf. Yn ogystal, mae Ysgol Sant Cyres yn gwahodd disgyblion Blwyddyn 6 i gymryd rhan mewn diwrnod mabolgampau pontio.

Cynhelir diwrnod cynefino Blwyddyn 6 yn nhymor yr haf. Bydd yr holl ddisgyblion y dyrannwyd lle iddynt ar gyfer St Cyres yn cael y cyfle i gwrdd â'u Hanogwr Dysgu, archwilio gwersi rhagflas a chwrdd â'u cyfoedion. Dilynir hyn gan noson Cynefino Rhieni lle bydd rhieni a gofalwyr yn cael cyfle i gwrdd â'r Anogwr Dysgu a'r Pennaeth Blwyddyn.

Drwy gydol y flwyddyn, rydym yn cynnig gweithgareddau pontio pwrpasol ar gyfer disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol wrth bonito o'r ysgol gynradd.

Mae disgyblion Blwyddyn 7 yn cael profiadau gwerthfawr trwy'r rhaglen bontio ac o ganlyniad, maent yn ymgartrefu'n eithriadol o dda i fywyd ysgol uwchradd.





# Tu Hwnt i'r Dosbarth

Yn ogystal â'r ffocws ar gyflawni'r canlyniadau academaidd gorau oll i'n disgyblion, rydym hefyd yn rhoi pwys mawr ar yr angen i ddisgyblion fwynhau eu hamser yn yr ysgol a bod yn hapus trwy chwarae rhan weithredol ym mywyd yr ysgol. Yn sicr mae gennym rywbeth at ddant pawb.

Anogir disgyblion i ddatblygu eu doniau a'u medrau cymdeithasol ymhellach trwy gymryd rhan mewn cymaint o weithgareddau â phosibl, sydd ar gael trwy'r cwricwlwm ac fel rhan o'r arlwy allgyrsiol.

Rydym yn rhoi cyfle i fyfyrwyr gymryd rhan mewn amrywiaeth eang o chwaraeon, clybiau ac ymweliadau. Mae hyn yn hybu manteision cadw'n heini a byw bywyd iach. Mae gennym nifer o dimau ar draws yr holl chwaraeon ac mae'r ysgol yn aml yn mwynhau llwyddiant mewn ystod o dwrnameintiau. Mae nifer sylweddol o'n myfyrwyr wedi cynrychioli eu sir, tra bod llawer wedi mynd ymlaen i ennill anrhydedd ar lefel ryngwladol.



Mae nifer o glybiau megis clwb Seren, clwb Eco, clwb Warhammer a Dungeons and Dragons, clwb Gwyddoniaeth, clwb gwaith cartref, i enwi dim ond rhai, sydd i gyd yn cyfrannu at dapestri cyfoethog ein gweithgareddau y tu allan i oriau. Mae cerddoriaeth a drama'n ffynnu gyda disgyblion yn mwynhau'r cyfleoedd a'r llwyddiannau o gymryd rhan mewn nifer o gynyrchiadau, côr a chreu cerddoriaeth. Yn ogystal â gwersi cerddoriaeth wedi'u hamserlennu, mae athrawon peripatetig yn darparu sesiynau unigol i fyfyrwyr sy'n dymuno datblygu eu doniau cerddorol mewn ystod o offerynnau.

Mae ystod eang o deithiau ac ymweliadau addysgol i gyfoethogi'r profiad o fywyd ysgol. Mae enghreifftiau'n cynnwys alldeithiau Dug Caeredin, teithiau yn cynnwys Ffrainc, yr Eidal, yr Almaen, UDA a chyrchfannau Ewropeaidd a rhyngwladol eraill.



# Gweledigaeth Gynhwysol

Yn St Cyres rydym yn credu mewn cynnig cyfleoedd dysgu sy'n herio disgyblion, yn eu helpu i sylweddoli y gallant lwyddo ac yn eu cefnogi i gyrraedd eu llawn botensial. Mae Darpariaeth Gyffredinol yn ganolog i'n strategaeth addysgu a dysgu ac yn sicrhau bod pob plentyn, beth bynnag fo'i allu, yn gallu llwyddo'n academaidd ac yn gymdeithasol. Cyflawnir hyn trwy addysgu rhagorol sydd wedi'i wahaniaethu'n briodol i fodloni anghenion pob plentyn.

Mae ein tîm Anghenion Dysgu Ychwanegol yn gweithio gyda disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol a nodwyd, gan eu helpu i oresgyn eu rhwystrau i ddysgu a chyflwyno Darpariaeth Dysgu Ychwanegol (ALP) i gefnogi eu dysgu ymhellach.



Ysgol uwchradd brif ffrwd Bro Morgannwg yw Ysgol St Cyres sydd ag adnoddau i ddiwallu anghenion disgyblion ag anghenion Corfforol neu Feddygol (PMED) a/neu Nam ar y Clyw. Mae mynediad i ganolfannau adnoddau HI a PMED yn cael ei reoli gan Fro Morgannwg ac unwaith y caiff ei ddyrannu i Ysgol St Cyres, mae disgyblion yn elwa ar gymorth a dargedir gan dîm o staff arbenigol.

Cefnogir y tîm ADY ymhellach gan Ganolfan Cefnogi Disgyblion sy'n helpu disgyblion ag anawsterau rheoleiddio emosiynol i oresgyn eu rhwystrau i ddysgu. Mae Canolfan Cymorth Dysgu yn cynnig cymorth yn y dosbarth, cymorth lles (ELSA) ac ymyriadau wedi'u targedu i ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd.

Yn olaf, mae ein tîm EMAS yn cefnogi disgyblion y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt.



# Bywyd Chweched Dosbarth

Mae 6ed Dosbarth St Cyres yn mwynhau holl fanteision bod yn rhan o ysgol yr 21ain ganrif, yn ogystal â chael eu llety arbenigol eu hunain sy’n cynnwys y Ganolfan 6ed Dosbarth, ystafelloedd dosbarth 6ed Dosbarth pwrpasol, Ystafell Astudio Tawel a chaffi 6ed Dosbarth.

Mae canlyniadau UG a Safon Uwch yn ardderchog ac mae mwyafrif ein ymadawyr yn y 6ed Dosbarth yn gadael am eu dewis cyntaf o brifysgol. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn astudio 4 Safon UG a CBC ym Mlwyddyn 12 a 3 Safon Uwch a CBC ym Mlwyddyn 13. Mae llawer o’n myfyrwyr yn symud ymlaen i astudio ym mhrifysgolion Grŵp Russell ac mae gennym hanes da o gefnogi myfyrwyr sy’n gwneud cais am Oxbridge ac ar gyfer Meddygaeth a Deintyddiaeth. Mae nifer llai o fyfyrwyr yn symud ymlaen yn llwyddiannus i leoliadau prentisiaeth. Ym mhob achos, rydym yn dod i adnabod myfyrwyr yn dda yn ystod eu hamser gyda ni, ac rydym bob amser yn gallu eu cefnogi ar eu taith i’r cyrchfan o’u dewis.



Mae 6ed Dosbarth St Cyres yn amgylchedd cynnes, croesawgar, a thra bod y mwyafrif o’n myfyrwyr sy’n ymuno â’n Chweched Dosbarth yn dod o’n Blwyddyn 11 ein hunain, rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ddisgyblion Blwyddyn 11 o ysgolion lleol eraill. Mae gan y 6ed Dosbarth yn Ysgol St Cyres ei hunaniaeth gref ei hun, ond mae gan y myfyrwyr rôl unigryw fel arweinwyr a modelau rôl ar gyfer gweddill yr ysgol. Mae’r ysgol yn cynnig ystod eang o gyrsiau ôl-16 i fyfyrwyr, fel y dangosir ar dudalen 7 y prosbectws hwn.

Mae myfyrwyr yn derbyn cyngor bugeiliol ac addysgol rhagorol yn Ysgol St Cyres. Bydd myfyrwyr yn rhan o grŵp Anogwyr Dysgu a bydd yr Anogwr Dysgu yn goruchwylio cynnydd. Bydd Anogwyr Dysgu yn arbenigo mewn materion Ôl-16, a bydd yn eich helpu i reoli’r newid i ffordd hollol newydd o ddysgu, yn ogystal â rhoi’r arweiniad y bydd ei angen arnoch i benderfynu ar eich cynlluniau ar gyfer y dyfodol.



# Ymddygiad ar gyfer Dysgu

Mae Ysgol St Cyres yn credu bod ymddygiad cadarnhaol yn sicrhau bod pob dysgwr yn mwynhau ac yn llwyddo yn ei ddysgu. Mae Ysgol St Cyres yn ymfalchïo yn ymddygiad ei disgyblion ac yn gweld ymddygiad cadarnhaol fel rhywbeth alweddol i lwyddo yn ein datganiad cenhadaeth o 'Ymdrechu Gyda'n Gilydd; Heriwch Eich Hun Sylweddoli Gall Pawb Lwyddo".

Hyrwyddir y neges hon yn gyson mewn modd cadarnhaol, gyda'r poster canlynol yn cael ei arddangos ym mhob ystafell ddosbarth a swyddfa.

**Byddwch Ddiogel**

Dilynwch geisiadau a chyfarwyddiadau gan yr holl staff.
Byddwch lle dylech chi fod, pan ddylech chi fod yno.
Trinwch y tu mewn i'r ysgol yn wahanol i'r tu allan.
Ffonau Symudol ddim i'w defnyddio na'u gweld.
Byddwch yn dawel drwy'r coridorau.
Gwrandewch am y gloch.
Caniatewch le i bawb.
Cadwch i'r chwith.

**Dangoswch Barch**

Triniwch bobl eraill yn y ffordd rydych chi am gael eich trin.
Dilynwch Gyfarwyddiadau a cheisiadau.
Gwrandewch ar athrawon, a disgyblion.
Byddwch yn gwrtais a charedig i bawb.
Caniatáu eu rhyddid i bobl eraill.
Peidiwch â sarhau neb.
Peidiwch â rhegi.
Gofalwch.

**Gwnewch Gynnydd**

Gofynnwch am help os ydych ei angen.
Dewch gyda'r holl offer yn eich bag.
Gweithiwch hyd eithaf eich gallu.
Gwrando ar yr athro/athrawes.
Parchwch eich llyfr a'ch offer.
Peidiwch â difetha'r dysgu.
Cyrhaeddwch ar amser.



# Llesiant

Mae lles a llesiant ein pobl ifanc yn flaenoriaeth allweddol i holl staff ysgol St Cyres. Mae'r tîm Bugeiliol ar gael drwy gydol y diwrnod ysgol ac maent wedi'u lleoli yn yr Hyb. Mae'r Hyb yn cynnig man cynhwysol diogel lle gall disgyblion drafod pryderon, cyfathrebu apwyntiadau a chysylltu â staff allweddol neu gartref, i gyd gyda chefnogaeth ac arweiniad gan ein Penaethiaid Blwyddyn a Chynorthwywyr Cymorth Bugeiliol.

Mae gan bob grŵp blwyddyn Bennaeth Blwyddyn sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am gynnydd academaidd a llesiant disgyblion, ac mae gan bob grŵp blwyddyn hefyd Gynorthwyydd Cymorth Bugeiliol sy'n gweithio gyda'r Pennaeth Blwyddyn i gefnogi disgyblion yn y grŵp Blwyddyn hwnnw. Mae Cynorthwywyr Bugeiliol yn aelodau o'r staff nad ydynt yn addysgu. Mae hefyd staff addysgu a staff nad ydynt yn addysgu eraill sy'n cefnogi llesiant disgyblion ar draws yr ysgol, gan gynnwys staff sy'n darparu ymyriadau llesiant penodol.

Mae Ysgol St Cyres wedi mabwysiadu ymagwedd ysgol gyfan at lesiant disgyblion. Mae ardaloedd pwrpasol yn yr ysgol sy'n amgylcheddau diogel, tawel i staff gyflwyno ymyriadau sy'n ymwneud â llesiant. Mae nifer o ymyriadau grŵp ac unigol yn canolbwyntio ar themâu allweddol fel llesiant meddwl, magwraeth, cyfeillgarwch, hunan-barch a meithrin gwydnwch.

Rydym hefyd yn cynnig cymorth gyda phrofedigaethau, perthnasoedd teuluol, emosiynau a phryder. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn teimlo bod eu hathrawon yn eu hadnabod ac yn gofalu amdanynt.

# Grwpiau Anogwr Dysgu

Mae 210 o ddisgyblion ym mhob grŵp Blwyddyn a threfnir y rhain yn 8 grŵp Anogwr Dysgu sydd yn fras o allu cymysg.

Mae'r Pennaeth Blwyddyn yn arwain tîm o 8 Anogwr Dysgu sydd â chyswllt dyddiol â disgyblion. Maent yn monitro llesiant personol, presenoldeb, cynnydd a chyflawniadau pob dysgwr yn eu grŵp. Anogir disgyblion i ddangos empathi a bod yn ddysgwyr uchelgeisiol.



# Cyfleusterau


Ystafell
Ffotograffiaeth


6 Ystafell TG
Microsoft Windows


7 labordy Gwyddoniaeth
llawn offer


3 gweithdy Technoleg
llawn offer


2 ardal Gemau
amlddefnydd


Awditoriwm
260 sedd


Ystafell
fwyta


Ystafell
ffitrwydd


2 ystafell Technoleg
Bwyd llawn offer


Trac Rhedeg pob
tywydd 110m


Canolfan Adnoddau Dysgu
wedi'i stocio'n llawn



Cae 3G
maint llawn


3 chae glaswellt
a chae criced artiffisial


2 swît technoleg
cerddoriaeth


Neuadd chwaraeon


Stiwdio Ddawns



# Dysgu rhagor

Ffoniwch yr ysgol ar
02920 708708

E-bostiwch yr ysgol ar
contact@stcyres.org

www.stcyres.org


@stcyresschool

Mae ein Noson Agored flynyddol yn cael ei chynnal bob mis **Hydref** felly dewch gyda'ch plentyn a'ch teulu i weld beth sydd gennym i'w gynnig. Gweler ein gwefan i weld rhagor o wybodaeth. Fel arall, os hoffech ymweld yn ystod y diwrnod ysgol, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion uchod.





| | |
|---|---|
| **Strive** | (Ymdrechu) |
| **Together** | (Gyda'n gilydd) |
| **Challenge** | (Herio) |
| **Yourself** | (Eich hun) |
| **Realise** | (Sylweddoli) |
| **Everyone can** | (Gall pawb) |
| **Succeed** | (Llwyddo) |


Ysgol St Cyres
Heol Sili
Penarth
Bro Morgannwg
CF64 2XP
stcyres.org